COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

# Ymarfer Hap-samplu
# gan y
# Panel Craffu

# Adolygiad o achosion lladrata a bwrglera

## Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel

**Hydref 2021**

## Cynnwys

1.0 Trosolwg............................................ **Error! Bookmark not defined.**

2.0 Cefndir, diben a methodoleg .................. **Error! Bookmark not defined.**

3.0 Cymeradwyaeth gan Gadeirydd y Panel ... **Error! Bookmark not defined.**

4.0 Camau gweithredu a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod panel diwethaf... **Error! Bookmark not defined.**

5.0 Arfer da............................................ **Error! Bookmark not defined.**

6.0 Meysydd sydd angen gwelliant ........................................................ 4

7.0 Ystyriaeth o achosion Bwrglera a Lladrata – drwgdybiedigion ifainc ..... **Error! Bookmark not defined.**

8.0 Ystyriaeth o achosion Bwrglera a Lladrata – drwgdybiedigion sy'n oedolion . 7

9.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn........................................................ 9

10.0 Ffocws y Panel yn y dyfodol ........................................................ 12

## 1.0 Trosolwg

Mewn cyfarfod o Banel Craffu ar Warediadau y tu allan i'r Llys Dyfed-Powys a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2021, adolygodd yr Aelodau ddetholiad o achosion bwrglera a lladrata yr ymdriniwyd â hwy drwy Waredlad y Tu Allan i'r Llys. Ystyriodd y Panel gyfanswm o 16 achos. Roedd 8 yn ymwneud â drwdybledigion ifainc ac 8 yn ymwneud ag oedolion.

Oherwydd y pandemig COVID-19 a chanllawiau'r llywodraeth o ran ymbellhau cymdeithasol, cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn rhithwir drwy'r rhaglen 'Skype for Business.'

## 2.0 Cefndir, diben a methodoleg

Mae Aelodau'r Panel ar y cyd yn cytuno ar faes ffocws ar gyfer pob cyfarfod. Pythefnos cyn pob cyfarfod, maent yn derbyn ffeiliau achos perthnasol a ddewiswyd ar hap gan Gadeirydd y Panel. Yna, mae'r Panel yn cyfarfod i drafod pob achos a, lle y bo'n bosib, dod i benderfyniad ynghylch priodoldeb y gwarediadau. **Wrth benderfynu pa gategori mae'r achos yn perthyn iddo, mae'r Panel yn ystyried y meini prawf canlynol:**

- Barn ac adborth gan y dioddefydd a'r troseddwr;
- Cydymffurfiaeth â pholisi'r heddlu;
- Sail resymegol dros y penderfyniad a'r canlyniad;
- Effaith debygol ar y gymuned ;
- Amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd; a
- Dewisiadau eraill posibl a allai fod ar gael.

Mae'r Panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:

- Defnydd priodol ac yn gyson â'r polisi;
- Defnydd priodol gydag amheuon gan Aelodau'r Panel;
- Defnydd amhriodol neu ddiffyg cysondeb â'r polisi; a
- Panel yn methu â chyrraedd canlyniad.

## 3.0 Cymeradwyaeth Cadeirydd y Panel

Gallaf i David L Evans (printiwch yr enw) gadarnhau fy mod wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn cynrychioli'n llwyr y farn a fynegwyd gan y Panel yn ystod ein hymarfer hap samplu ar 18 Hydref 2021.

Llofnod: ____________

Dyddiad: 31/1/22

## 4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod Panel diwethaf

O ganlyniad i waith y Panel Craffu ar Waredladau y Tu Allan i'r Llys, cymerwyd y camau canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

- Rhannu dysgu gyda swyddogion mewn perthynas â'r Polisi ar gyhoeddi Rhybuddion ar gyfer troseddau cyllyll.

## 5.0 Arfer da

Nodwyd yr arfer da canlynol o ganlyniad i waith y Panel yn ystod y chwarter hwn:

- Nododd y Panel fod swyddog arweiniol achos ieuenctid 6 wedi rhoi gwasanaeth safon aur i'r unigolyn, ac wedi cynhyrchu adroddiad manwl ac addysgiadol o fewn y cofnodion.

## 6.0 Meysydd sydd angen gwelliant

Nodwyd dau faes penodol sydd angen gwelliant o ganlyniad i waith y Panel yn ystod y chwarter hwn:

- Teimlai'r aelodau y dylai swyddogion fod wedi cyfeirio'r drwgdybyn yn achos 4 at y Tîm Troseddau Ieuenctid. Byddai hyn wedi sicrhau bod y drwgdybyn yn derbyn cefnogaeth ac ymyrraeth ofynnol.
- Tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith bod yr unigolyn yn achos 13 wedi derbyn dau rybudd yn olynol ar gyfer trosedd debyg. Mae hyn yn groes i'r polisi, a dylai'r achos fod wedi'i ddwysau.

## 7.0 Ystyriaeth o achosion Bwrglera a Lladrata - drwgdybiedigion ifainc

Ystyriwyd wyth achos bwrglera a lladrata sy'n ymwneud â phobl ifainc. Ymdriniwyd â'r achosion drwy Rybudd Ieuenctid a Gwarediad Adferol Ieuenctid.

| Asesiad yr Aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 6 |
| Priodol gydag amheuon | 1 |
| Amhriodol | 1 |

Nodir arsylwadau'r Aelodau Panel isod.

**Achos 1**

Rhoddwyd Rhybudd i'r drwgdybyn yn yr achos hwn am gymryd eitemau o siop heb dalu. Roedd yr Aelodau'n ei chael hi'n anodd deall manylion yr achos hwn yn llawn gan nad oedd gwaith papur y Tîm Troseddau Ieuenctid wedi'i ddarparu oherwydd bod y drwgdybyn yn byw tu allan i ardal Dyfed-Powys. Dywedodd yr Aelodau nad oedd y drwgdybyn wedi dangos llawer o edifeirwch ac nad oedd yn barod i gymryd rhan mewn ymyriadau. Nodwyd hefyd bod gan y drwgdybyn euogfarn flaenorol am ladrata a'i fod wedi derbyn rhybudd o'r blaen. Nododd yr Aelodau y gallai rheswm dros roi dau rybudd i'r unigolyn fod wedi'i gynnwys gan Dîm Troseddau Ieuenctid Gwynedd, fodd bynnag, nid yw'r Panel yn medru adolygu'r penderfyniad hwn heb y gwaith papur perthnasol. Achosodd ail rybudd amheuon oherwydd hanes yr unigolyn o droseddu.

**Asesiad y Panel: Defnydd priodol gydag amheuon**

**Achos 2**

Roedd y digwyddiad hwn yn ymwneud â'r drwgdybyn yn cymryd e-sigarennau o siop heb dalu. Nododd yr Aelodau fod y drwgdybyn hwn yn ifanc iawn, nad oedd unrhyw euogfarnau blaenorol ganddo, a'i fod wedi ymddiheuro a chyfaddef i'r drosedd. Darparodd y drwgdybyn lythyr o ymddiheuriad ac nid yw wedi troseddu ers hynny. Gan hynny, teimlwyd bod Gwarediad Adferol Ieuenctid yn briodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 3**

Roedd yr Aelodau'n fodlon bod yr achos hwn wedi'i gyflawni a'i drin yn briodol drwy Warediad Adferol Ieuenctid. Roedd y drwgdybyn wedi ymddiheuro drwy lythyr ac wedi talu iawndal am yr eitemau a ddygwyd o'r siop.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 4**

Roedd yr Aelodau'n anfodlon â chamau gweithredu'r achos hwn. Rhoddwyd rhybudd i'r drwgdybiedigion am gelu eitemau ar eu cyrff ac yna gadael y siop heb dalu. Teimlai'r Aelodau bod yr achos hwn wedi'i waredu'n amhriodol oherwydd gwerth uchel yr eitemau a gafodd eu dwyn ac oherwydd natur ragfwriadol y drosedd. Ymddengys bod y drwgdybiedigion wedi teithio i'r ardal

fel grŵp â'r bwriad o gyflawni'r drosedd. Ni ddangosodd y drwgdybiedigion lawer o edifeirwch, a theimlai'r aelodau y dylai'r achos hwn fod wedi'i ddwysau a'i gyfeirio at y Tîm Troseddau Ieuenctid er mwyn i'r unigolion dderbyn ymyrraeth.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

### Achos 5

Roedd yr Aelodau'n fodlon bod camau gweithredu a chanlyniad yr achos hwn yn briodol. Roedd y gwerth dan sylw yn yr achos hwn yn isel iawn, a dychwelwyd y nwyddau. Fel yr uchod, gweithgarwch grŵp oedd y lladrad hwn, gan ddefnyddio'r un dull o ddwyn eitemau o'r un siop. Holodd yr Aelodau pa un ai a yw'r dull hwn o ddwyn eitemau o'r siop benodol hon yn mynd o amgylch pobl ifainc. Teimlai'r Panel fod Gwarediad Adferol Ieuenctid yn briodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

### Achos 6

Teimlai'r Aelodau bod y swyddog yn yr achos hwn wedi darparu gwasanaeth safon aur. Nodwyd ei fod wedi cyfathrebu'n glir â'r heddlu, yr ysgol a'r dioddefydd, a'i fod wedi cofnodi sawl adroddiad manwl o fewn y cofnodion. Roedd yr Aelodau'n fodlon bod yr achos hwn o ladrad o siop wedi'i drin yn briodol drwy Warediad Adferol Ieuenctid.

**Asesiad y Panel: Priodol**

| |
|---|
| <u>**Cam Gweithredu 1:**</u><br><br>**Cyflwyno'r adborth cadarnhaol mewn perthynas ag achos 6 i swyddog arweiniol yr achos.** |

### Achos 7

Roedd yr Aelodau'n fodlon bod yr achos lladrad hwn wedi'i drin yn briodol a bod Gwarediad Adferol Ieuenctid yn ganlyniad priodol. Roedd gwerth yr eitemau a ddygwyd yn isel, ac roedd y drwgdybyn wedi ysgrifennu llythyr o ymddiheuriad. Nododd yr Aelodau fod y dull lladrata a ddefnyddiwyd yn achosion 4 a 5 wedi'i ddefnyddio eto yn yr achos hwn ar gyfer yr un siop.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 8**

Teimlai'r Aelodau bod Gwarediad Adferol Ieuenctid yn briodol ar gyfer yr achos hwn gan fod gwerth yr eitemau'n isel ac roedd y drwgdybyn wedi ysgrifennu llythyr o ymddiheuriad. Nodwyd fod dau ddrwgdybyn yn gysylltiedig â'r achos, ond cawsant eu trin ar wahân. Nododd yr Aelodau fod camgymeriad ar ffurflen manylion STORM y Gwarediad Adferol Ieuenctid, lle y cyfeirir at y canlyniad fel Gwarediad Adferol Oedolion.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Cam Gweithredu 2:**

**Prif Arolygydd i adolygu'r ffurflen Gwarediad Adferol Ieuenctid a gwirio pa un ai a chamgymeriad teipio yw'r cyfeiriad at Warediad Adferol Oedolion neu gamgymeriad ar dempled y ffurflen.**

## 8.0 Ystyriaeth o achosion Bwrglera a Lladrata - drwgdybiedigion sy'n oedolion

Adolygodd Aelodau'r Panel wyth achos Lladrata a Bwrglera a oedd yn ymwneud ag oedolion. Ymdriniwyd â'r achosion hynny drwy Rybudd Amodol a Datrysiad Cymunedol.

Roedd asesiadau'r Aelodau fel a ganlyn:

| Asesiad yr Aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 3 |
| Defnydd priodol gydag amheuon | 2 |
| Amhriodol | 3 |

Nodir arsylwadau'r Aelodau Panel ar bob achos isod:

**Achos 9**

Rhoddwyd Rhybudd Amodol i'r drwgdybyn yn yr achos hwn am ddwyn meddyginiaeth ragnodedig o eiddo. Nodwyd fod hon yn drosedd ddifrifol am ei bod yn cynnwys pobl fregus ac roedd y drwgdybyn mewn swydd gyfrifol. Fodd bynnag, dylid cydnabod bod problemau iechyd meddwl gan y drwgdybyn a phe bai'r mater wedi'i ddwysau, ni fyddai wedi derbyn cefnogaeth drwy'r cynllun

dargyfeirio. Nodwyd hefyd bod asesiad Ffurflen Gyfeirio Amlasiantaeth wedi'i gyflwyno, sy'n golygu y byddai'r pryderon hyn yn cael eu hamlygu adeg unrhyw wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn y dyfodol. Daeth y Panel i gytundeb drwy bleidlais mwyafrif bod yr achos hwn wedi'i drin yn briodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 10**

Rhoddwyd Datrysiad Cymunedol i'r drwgdybyn am ddwyn eitem o fwyd o siop. Nododd yr Aelodau bod y drwgdybyn yn feddw a bod gwerth yr eitem a gafodd ei ddwyn yn isel. Gan fod y drosedd yn un lefel is, teimlwyd bod y gwarediad hwn yn briodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Case 11**

Roedd yr Aelodau'n anfodlon â chanlyniad yr achos hwn. Rhoddwyd Datrysiad Cymunedol i'r unigolyn am yrru i ffwrdd heb dalu am danwydd. Er bod y drosedd yn un o werth gymharol isel, nodwyd nad oedd y drwgdybyn wedi dangos unrhyw edifeirwch a'i fod yn ymddangos fel pe bai'r drosedd wedi'i chynllunio ymlaen llaw. Roedd y drwgdybyn wedi derbyn rhybuddion o'r blaen, ac roedd wedi defnyddio platiau rhif ffug. Teimlai'r Aelodau y dylai'r achos hwn fod wedi'i ddwysau a'i gymryd i'r Llys.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 12**

Roedd yr achos hwn yn ymwneud â byrgleriaeth siop a lladrad arfau. Rhoddwyd Datrysiad Cymunedol i'r drwgdybyn yn yr achos hwn. Er nad oedd y dioddefydd eisiau cefnogi'r gŵyn, roedd gan y drwgdybyn euogfarn flaenorol am ladrata, a theimlai'r Aelodau y byddai'r drwgdybyn wedi elwa o gymorth ac ymyrraeth.

**Asesiad y Panel: Defnydd priodol gydag amheuon**

**Achos 13**

Nododd yr Aelodau fod y drwgdybyn hwn wedi derbyn Datrysiad Cymunedol am geisio dwyn eitemau o siop. Nododd yr Aelodau fod y drwgdybyn wedi derbyn Rhybudd o'r blaen mewn perthynas â throsedd debyg. Teimlwyd fod cyhoeddi

Datrysiad Cymunedol yn dilyn Rhybudd yn amhriodol. Nodwyd hefyd fod hon yn drosedd fwriadol a bod gan y drwgdybyn batrwm amlwg o droseddu, gan roi teimlad y dylid fod wedi dwysau'r drosedd hon.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 14**

Roedd aelodau'r Panel yn anfodlon â chamau gweithredu a gwarediad yr achos hwn. Rhoddwyd Datrysiad Cymunedol i'r drwgdybyn am esgus talu am eitemau wrth ddesg dalu hunanwasanaeth. Nodwyd fod y drwgdybyn wedi dwyn eitemau fel hyn sawl gwaith. Teimlai'r Panel fod yr achos wedi'i drin yn amhriodol gan fod y drwgdybyn wedi cytuno i Ddatrysiad Cymunedol heb gyfweliad neu gynrychiolaeth gyfreithiol gyda gwybodaeth a dogfennaeth gyfyngedig yn cael eu cofnodi. Roedd yr Aelodau hefyd yn anfodlon â'r lefel o gefnogaeth a gynigwyd i'r drwgdybyn ac yn credu y dylid fod wedi cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol i oedolion i wirio lles yr unigolyn oherwydd ei oed (72) a'i amgylchiadau ariannol.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 15**

Rhoddwyd Datrysiad Cymunedol i'r drwgdybyn yn yr achos hwn. Teimlai'r Aelodau fod hyn yn briodol oherwydd gwerth isel yr eitemau a'r ffaith eu bod wedi'u dychwelyd. Roedd y drwgdybyn hefyd wedi ysgrifennu llythyr o ymddiheuriad, ac nid oedd ganddo euogfarnau blaenorol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 16**


Roedd yr achos hwn yn ymwneud â'r drwgdybyn yn celu eitemau o siop ar ei gorff a gadael heb dalu. Rhoddwyd Datrysiad Cymunedol i'r drwgdybyn. Roedd yr Aelodau'n fodlon â chanlyniad y drosedd gan iddynt nodi bod yr eitemau o werth isel ac roedd pob eitem wedi'i hadennill. Fodd bynnag, teimlwyd y dylid fod wedi cynnal ymchwiliad pellach i weithredoedd y drwgdybyn oherwydd natur yr eitemau a ddygwyd.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**


**Cam Gweithredu: Prif Arolygydd i ddiweddaru'r cofnod cudd-wybodaeth er mwyn sicrhau y tynnir sylw at unrhyw weithgarwch amheus arall mewn perthynas â'r unigolyn hwn.**

## 9.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn

Mae'r siartiau isod yn dangos asesiadau'r Panel o'r achosion a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf.





Ers Tachwedd 2013 mae'r Panel wedi ystyried amrywiaeth o waredladau, fel y gwelir yn y graff isod.




O'r 460 o achosion a archwiliwyd rhwng Ebrill 2013 a Hydref 2021, cafodd 57% eu hasesu'n briodol, 21% yn amhriodol, ac 20% yn briodol gydag amheuon. Methodd y Panel â dod i ganlyniad mewn 2% o'r achosion.


Gellir gweld y newid hwn dros amser yn y graff isod:




Mae'r graff isod yn dangos y dadansoddiad fesul math o drosedd fel canran o'r achosion a ystyriwyd rhwng Tachwedd 2013 a Hydref 2021.



Mae'r graff canlynol yn dangos y nifer gwirioneddol o achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd a barn y Panel yn eu cyfarfodydd rhwng Tachwedd 2013 a Hydref 2021.




## 10.0 Ffocws y Panel yn y dyfodol

Yn dilyn trafodaeth, roedd y Panel eisiau adolygu cymysgedd o Droseddau Casineb ac Ymosodiadau yn erbyn Gweithwyr Gwasanaethau Brys yn y cyfarfod nesaf ar 31 Ionawr 2022.